

Ydych chi'n gwybod y gwahaniaeth
rhwng Pwyntiau Tariff a Chodau UCAS?
Beth am UF a CF?

Gall Rhieni'n Rhannu eich helpu.



Mae Rhieni'n Rhannu yn rhoi gwybodaeth i chi ar sut i oroesi'r broses ymgeisio i brifysgol. Mae gennym gyngor ar sut i gael y mwyaf allan o Ddiwrnodau Agored a chyfarwyddyd ar sut i fantoli costau prifysgol. Mae gennym hefyd gyfweliadau gyda rhieni a chanllaw ar y jargon a ddefnyddir i wneud yn siŵr eich bod yn deall yr holl derminoleg.

I archebu copi AM DDIM heddiw, ewch i www.decymru.ac.uk/parents neu ffoniwch ein Llinell Gymorth i Rieni ar 08455 194 553.


2015



UCAS

Canllaw i rieni

Gwybodaeth am daith yr ymgeisydd UCAS



It's time to make a plan for their future

So we'd better make sure they've got the **right one**

At London Metropolitan University we believe that everyone and everything should have a plan. It is our commitment to all our students to help them shape their future.

As a parent or guardian, you will have your own questions about higher education. We host open days, campus tours, UCAS application clinics and funding workshops to give you, and them, every opportunity to talk to us about the right plan.

It all starts with a simple step, visit:
londonmet.ac.uk/theplan/parents

No.1 for graduate starting salaries among modern universities*

Croeso

Mae Canllaw Rhiant UCAS yn arbennig ar eich cyfer chi – rhiant, gofalwr neu nain nain neu daid, mam-gu neu dad-cu ymgeisydd am addysg uwch.



Mae addysg yn fwy nag arian, yn fwy na swydd. Mae'n golygu datblygu eich enaid, troi eich hunan i'r person y gallwch chi fod, rydych chi eisiau bod."

Lois Ward ym Mhrifysgol Canol Swydd

Gaerhirfryn – Ymgeisydd Cystadleuaeth Ysgrifennu Traethawd UCAS / Times.

Cynnwys

Mae paratoi ar gyfer mynd i addysg uwch yn benderfyniad mawr i'ch mab neu'ch merch. Beth yw'r pwnc iawn iddyn nhw, i ble y dylan nhw ymgeisio, beth yw'r ffordd orau o reoli eu harian?

Fe gewch wybodaeth yn y canllaw hwn i'ch helpu drwy'r broses.

Cychwyn arni 2

Pam addysg uwch?	3
Beth yw UCAS?	5
Egluro termau UCAS	6
Cael cymorth ar-lein	11

Dewis cyrsiau 12

Ymchwil, ymchwil, ymchwil	13
Astudiaeth achos teulu'r Harvey	18
Chwalu'r chwedlau	19
Ymgeisio	21
Datganiad personol	22

Cyllid myfyrwyr 22

Beth sy'n digwydd unwaith mae cais wedi'i wneud?	28
Extra	30
Canlyniadau arholiadau	31
Clearing ac Adjustment	32

Dechrau yn y brifysgol

Awgrymiadau a syniadau	Clawr cefn
------------------------	------------

Cychwyn arni



Pam addysg uwch?

Mae'r manteision yn enfawr!

- Ar wahân i bosiblwydd o ennill rhagor o gyflog a gwell rhagolygon gyrfa, mae addysg uwch yn helpu'r genhedlaeth nesaf i ddysgu pethau newydd, cymryd cyfrifoldeb am eu dyfodol a chyrraedd ble maen nhw eisiau bod mewn bywyd.
- Mae addysg prifysgol yn datblygu sgiliau dysgu'n annibynnol, cyfathrebu, deallusrwydd, ymchwil a TG – sy'n bwysicach nag erioed erbyn hyn.
- Mae addysg uwch yn ehangu diddordebau a gwybodaeth, yn meithrin annibynnaeth, hunan hyder a chyfrifoldeb.
- Mae cymdeithas hefyd ar ei mantais o gael gweithlu wedi'i addysgu'n dda ac mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi graddedigion. Mae'n rhaid cael gradd berthnasol ar gyfer rhai gyrfaoedd, megis meddygaeth neu ddysgu.

Sut le yw'r brifysgol?

Mae cyrsiau israddedigion addysg uwch yn dair neu bedair blynedd o hyd fel arfer ac yn cael eu galw'n gyrsiau baglor, israddedig neu radd gyntaf. Mae'r cyrsiau'n cael eu dysgu dryw gyfuniad o ddar lithoedd a seminarau, ac yn cael eu ffurio o wahanol fodiolau fel arfer. Gall myfyrwyr yn aml ddewis rhai o'u modiwlau ac felly astudio'r hyn sydd o fwyaf o ddiddordeb iddyn nhw.

Yn ogystal â chwrs academig, mae prifysgol yn cynnig cyfleoedd eraill i bobl ifanc:

- dysgu a chymdeithasu gydag amrywiaeth eang o bobl (gan gynnwys myfyrwyr o'r tu allan i wledydd Prydain a rhai'n astudio cyrsiau gwahanol iawn)
- teithio
- cymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol
- cyfarfod â darpar gyflogwyr

Cyngor gyrfa

Gall eich mab neu'ch merch gael rhagor o wybodaeth ar lein gan arbenigwyr gyrfaoedd yngylch sut y gall addysg uwch helpu i adeiladu gyrfa. Mae gan bob gwlad yn y DU ei gwefan:

Lloegr: National Careers Service
nationalcareersservice.direct.gov.uk

Gogledd Iwerddon: Careers Service Northern Ireland (www.nidirect.gov.uk)

Yr Alban: Skills Development Scotland
www.myworldofwork.co.uk

Cymru: Gyrfa Cymru
www.gyrfacymru.com

neu gallan nhw gysylltu â'u gwasanaeth gyrfaoedd lleol nhw.

MAKING CHOICES FOR 2015?

SECURE YOUR FUTURE

Choose from over 140 full-time degree courses, from Accountancy to Zoology and everything in between, at great city centre campuses. We have invested over £9m in financial support including scholarships, cash bursaries and study support, with every student receiving a minimum of £1200.* Most importantly, our students are in demand. Nearly 4 out of 5 of our graduates entering the workplace start out in professional roles.**

Find out how we can help secure your future.

APPLY NOW

www.anglia.ac.uk/guide

UPCOMING OPEN DAYS

Saturday 22 February, 10am–2pm
Saturday 26 April, 10am–2pm
Saturday 28 June, 10am–2pm

 twitter.com/angliaruskin

 facebook.com/angliaruskin



Anglia Ruskin
University

Cambridge Chelmsford Peterborough

*Based on a typical 3 year degree course

**Source: Destination of Leavers Survey 2011/12


Beth yw UCAS?

Rydyn ni yma i'ch helpu

www.ucas.com yw'r lle i ddechrau chwilio am wybodaeth ynghylch ymgeisio i brifysgol neu goleg. Mae'r adran hon ar gyfer rhieni a gwarcheidwaid. Bydd www.ucas.com/parents yn eich helpu i ddeall taith ymgeisydd UCAS ac yn cefnogi eich plentyn drwy'r broses.

Beth ydym ni'n ei wneud

- Ar ôl gwneud yn siwr fod ceisiadau'n gyflawn, byddwn yn eu hanfon i brifysgolion a cholegau o ddewis yr ymgeisydd.
- Bydd y prifysgolion a'r colegau'n anfon eu penderfyniadau atom ni a byddwn ninnau'n rhoi gwybod i'r ymgeiswyr drwy ein gwasanaeth Track ar lein.
- Ni yw'r ffynhonell ganolog o wybodaeth ynghylch prifysgolion a cholegau.



Egluro termau UCAS

Mae yna grym dipyn o dermau penodol y mae UCAS a'r prifysgolion yn eu defnyddio yn y broses ymgeisio. Rydyn ni wedi egluro ychydig o'r rhai allweddol yma, ond gallwch ganfod rhagor o wybodaeth yn ein egluro termau UCAS www.ucas.com/ucas-terms-explained.

Cychwyn arni

Profion mynediad – ar gyfer rhai pynciau (er enghraift, meddygaeth neu'r gyfraith) efallai y bydd yn rhaid i ymgeiswyr eistedd prawf ychwanegol www.ucas.com/admissions-tests.

CUKAS – Conservatoires UK Admissions Service – system ymgeisio'r ar gyfer cyrsiau ymarferol celfyddydau perfformio, cerddoriaeth, dawns a drama www.cukas.ac.uk.

Tariff – ffordd o ddyrannu pwyntiau i gymharu'r cymwysterau ôl-16 sy'n cael eu defnyddio ar gyfer mynediad i addysg uwch www.ucas.com/ucas-tariff.

UCAS – mae UCAS yn golygu Universities and Colleges Admissions Service. Ni sy'n prosesu ceisiadau cyrsiau addysg uwch llawn amser yng ngwledydd Prydain.

Israddedig – Dyma lle mae addysg uwch yn dechrau. Dyma'r lefel gyntaf o astudio, er enghraift i ennill gradd neu HND.

Llenwi'r cais

Apply – enw system ymgeisio arlein UCAS.

Gohirio – os bydd ymgeisydd eisiau ymgeisio i astudio'r flwyddyn nesaf, mae'n rhaid cadarnhau y bydd y brifysgol neu'r coleg yn fodlon ystyried cais am ohirio mynediad.

Mynediad enwebedig – gall ymgeisydd enwebu rhywun arall i gymryd penderfyniadau ar ei ran a thrafod y cais gyda ni a'r prifysgolion a'r colegau y mae wedi ymgeisio i fynd iddyn nhw. Yn aml, rhiant, gofalwr neu nain neu daid, mam-gu neu dad-cu yw'r person hwnnw.

Adnabyddiaeth bersonol – adnabyddiaeth 10 digid unigryw y mae ymgeisydd yn ei gael wrth gofrestro yn Apply.

Datganiad personol – datganiad, heb fod yn fwy na 4000 o nodau, wedi'i ysgrifennu gan yr ymgeisydd fel rhan o'r cais i berswadio prifysgolion a cholegau i gynnig lle ar y cwrs.

Geirda – datganiad wedi'i ysgrifennu gan rywun sy'n adnabod yr ymgeisydd yn dda ac sy'n gallu rhoi asesiad gwybodus ac academiaidd o addasrwydd ymgeisydd ar gyfer cwrs.

Ar ôl anfon y cais at UCAS

Cynnig amodol – cynnig sy'n rhoi lle i ymgeisydd os yw'n bodlonni rhai gofynion, canlyniadau arholiadau fel arfer www.ucas.com/offers.

Extra – efallai y bydd ymgeiswyr sydd wedi defnyddio pob un o'r pum dewis, sydd wedi derbyn pob penderfyniad ac nad oes unrhyw gynnig ar ôl, yn dymuno defnyddio Extra i gael ychwanegu dewis arall www.ucas.com/extra.

Dewis pendant – cynnig sy'n cael ei dderbyn fel dewis cyntaf ymgeisydd www.ucas.com/replies.

Dewis yswiriant – cynnig sy'n cael ei dderbyn fel dewis wrth gefn ymgeisydd www.ucas.com/replies.

Gwahoddiad – gall ymgeisydd dderbyn gwahoddiad yn Track o brifysgol neu goleg am gyfweliad neu glyweliad neu i gyflwyno portffolio, traethawd neu ddarn arall o waith www.ucas.com/invitations.

Track – ein system arlein y bydd ymgeiswyr yn ei defnyddio i gadw llygad ar gynnydd eu cais, newid eu manylion a rheoli eu dewisiadau www.ucas.com/trackyourapplication.

Cynnig di-amod – cynnig o le heb unrhyw amod. Os bydd yr ymgeisydd yn derbyn, bydd lle ar gael cyn belled â bod unrhyw ofynion anacademaidd yn cael eu bodlonni, megis gwiriadau iechyd www.ucas.com/offers.

Ar ôl canlyniadau arholiadau

Adjustment – weithiau, bydd canlyniadau arholiadau yn well na'r disgwyl. Os bydd ymgeisydd wedi cyfarfod a mynd y tu hwnt i amodau eu cynnig cadarn amodol, efallai y bydd eisiau defnyddio Adjustment i ganfod cwrs amgen. www.ucas.com/adjustment.


Clearing – bydd y broses Glirio'n rhedeg o ddechrau Gorffennaf i helpu myfyrwyr heb gael lle a'r rhai sy'n ymgeisio ar ôl 30 Mehefin i ganfod cyrsiau sy'n dal â lleoedd ar gael www.ucas.com/clearing.

Cadarnhad – canlyniad cynnig amodol sydd wedi'i dderbyn gan ymgeisydd. Os yw'r amodau'n cael eu bodlonni, daw'r lle'n ddiamond, os nad, efallai y bydd y cynnig yn afluwydianus.



Help your child make the right choice

Available to purchase online and in all good bookstores



- ➡ Includes profiles for over 130 universities
- ➡ Compares university performance in over 60 subject tables
- ➡ Offers clear guidance for a stress-free application



@Collins4parents




Diweddariadau misol, rhad ac am ddim gan UCAS

Cofrestrwch i gael eich e-gylchlythyr misol rhad ac am ddim i rieni ar www.ucas.com/parentform.

Byddwn yn anfon gwybodaeth ddefnyddiol a chynghorion ymarferol atoch bob mis ar gyfnodau allweddol yn y cylch ymgeisio, gan gynnwys pethau fel:

- atgoffa am ddyddiadau cau
- cyngorion a syniadau yngylch beth i'w gynnwys mewn cais
- sut y mae gwahanol wasanaethau UCAS yn gweithio – megis Clearing ac Ychwanegol
- dolenni i flogiau a fideos rhieni

Mae cofrestru'n hawdd ac yn gyflym, ewch i:
www.ucas.com/parentform



Long-term careers
you can believe in.

Mandarin Language Opportunities

Choosing to study Mandarin at university could lead to a great career at MI5, MI6 or GCHQ. As the UK's intelligence agencies, we help to protect the UK from threats to national security, including terrorism and espionage. People with rare language skills are particularly important to us, and will be in the future.

This is a chance to invest in a degree that's directly relevant to an important role. Graduates spend their time translating a wide variety of challenging audio and textual material into English, producing a range of unique intelligence. They mix language skills with cultural awareness to make a vital contribution to our investigative and operational work. And as their experience grows, so does their role.

To find out more, please visit

www.mi5.gov.uk/careers
www.sis.gov.uk/careers
www.gchq-careers.co.uk

To be eligible to apply to MI5, MI6 or GCHQ you must be a born or naturalised British citizen and one of your parents must be a British citizen or have substantial ties to the UK.



SECURITY SERVICE
MI5



**SECRET
INTELLIGENCE
SERVICE** MI6

Cael cymorth ar-lein

Mae yna nifer o ffyrdd y gall eich mab neu'ch merch gael help ar lein – www.ucas.com/about-us/contact-us.

Cynllun e-gerdyn UCAS

Drwy lofnodi i ymuno â chynllun e-gerdyn UCAS, bydd eich mab neu'ch merch yn cael cyngor yn syth yn eu mewnlwch i'w helpu i ddeall proses UCAS yn ogystal â'u dewisiadau ar ôl coleg neu'r chweched dosbarth.

Gallan nhw gofrestu ar gyfer cynllun e-gerdyn UCAS ar www.ucas.com/ucascard.

Beth fyddant yn ei gael:

- cylchlythyr misol oddi wrthym ni gyda gwybodaeth amserol yngylch y broses ymgeisio a dyddiadau cau pwysig
- gwybodaeth yngylch dewisiadau eraill
- gwybodaeth oddi wrth bartneriaid sydd wedi'u dewis yn ofalus
- gwybodaeth wedi'i deilwra gan brifysgolion yn benodol ar gyfer eu huchelgais o ran gyrfa ac astudio
- Disgownt a chynigion i'w defnyddio ar y stryd fawr, mewn siopau ar lein ac mewn atyniadau ledled y wlad

Gwefan a chyfryngau a sianelau cymdeithasol

Os hoffech holi yngylch y broses ymgeisio, ewch i www.ucas.com i gael gwybodaeth am y broses gyfan, o ddewis cwrs i ddechrau astudio a phopheth rhwng y ddau.

Gallwch chi a'ch mab neu'ch merch gael help oddi wrthym ni ar Trydar a Gweplyfr lle mae ein hymgynggorwyr yn disgwl i ateb eich cwestiynau. Neu gallwch wyllo ein fideos a dilyn ein blogiau ar gyfer ymgeiswyr a rhieni i gael hyd yn oed fwy o wybodaeth gan bobl eraill sy'n mynd drwy'n proses.



www.twitter.com/ucas_online



www.facebook.com/ucasonline



www.youtube.com/ucasonline




www.ucas.com



plus.google.com/+Ucasonlineofficial

Mae cyngor ar gael ar y ffôn hefyd, ar **0871 468 0 468**, dydd Llun i Gwener 08:30 – 18:00.

Dewis cyrsiau



Dewis cyrsiau

Ymchwil, ymchwil, ymchwil!

Ymchwil yw'r allwedd i ymgeisio'n llwyddianus. Wrth gyfweld myfyrwyr prifysgol ail flwyddyn a gofyn iddyn nhw pa gyngor fydden nhw'n ei roi iddyn nhw eu hunain yn 18 oed, ateb POB UN oedd '**gwnnewch ragor o ymchwil'**. Mae yna lawer o syniadau ar gael ar ein gwefan www.ucas.com/choosingcourses i'w rhoi ar ben y ffordd

Cewch weld beth mae pobl eraill yn ei ddweud

Mae'n ddefnyddiol yn aml gwybod beth mae pobl eraill yn ei ddweud am eu cyrsiau. Mae gan Unistats, y wefan swyddogol ar gyfer cymharu cyrsiau addysg uwch yng ngwledydd Prydain, wybodaeth ar bob cwrs israddedig, gan gynnwys sgoriau bodlonrwydd o'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol. Cymerwch olwg ar <http://unistats.direct.gov.uk>.

Tablau cynghrair

Mae nifer o bobl eisiau gwybod pa brifysgol neu goleg yw'r gorau. Y gwir yw nad oes yna'r un cwrs neu sefydliad sy'n berffaith i bawb. Felly hefyd, yn aml nid yw tablau cynghrair prifysgolion yn cytuno gan eu bod yn dyfarnu pwyntiau yn ôl meinu prawf gwahanol iawn ac yn defnyddio gwahanol bwysoliadau yn dibynnu ar beth mae eu golygyddion yn ei gredu sydd bwysicaf. Gellir dod o hyd i dablau cynghrair ar y gwefannau canlynol:

- www.theguardian.com/education/universityguide
- www.thetimes.co.uk/tto/public/gug
(gwasanaeth tanysgrifio y Good University Guide)
- [www.thecompleteuniversityguide.co.uk](http://thecompleteuniversityguide.co.uk)

Mae'r tablau hyn yn datgelu cryn dipyn am farnau pobl, ond y peth pwysicaf yw a fydd prifysgol neu goleg yn addas ar gyfer eich mab neu'ch merch chi, a'r ffordd orau o weld hynny yw cael ymdeimlad am y lle a gweithio o'r fan yno.

Cychwyn arni

Y peth cyntaf i'w ystyried yw pa bynciau mae'ch mab neu'ch merch yn eu mwynhau ac yn awyddus i'w hastudio mewn dyfnader.

Gellir dechrau ar sawl pwnc yn y brifysgol. Er enghraift, pynciau y mae'n annhebyg y bydd gan ymgeiswyr lefel A gyfatebol , er y bydd disgwyl iddyn nhw brofi fod ganddyn nhw botensial. Mae'r rhain yn cynnwys archeoleg (bydd prifysgolion yn edrych am ddiddordeb ymarferol mewn hanes a gwrthrychau), pensaerniâeth (ble bydd angen tystiolaeth o allu i fyngi syniadau mewn darluniau a diagramau) neu ieithoedd (er enghraift, yn aml gall rhywun gyda lefel A mewn un iaith astudio un arall o'r dechrau). Mae tiwtoriaid derbyn mewn prifysgolion fel arfer yn fodlon iawn trafod gyda chi beth a fyddai'n dderbyniol.

Bydd y rhan fwyaf o gyrsiau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cymryd tair blynedd i'w cwblhau. Yn yr Alban mae hyn fel arfer yn cymryd pedair blynedd. Mae myfyrwyr ieithoedd yn aml yn cymryd blwyddyn ychwanegol sy'n cael ei threulio dramor mewn gwlad lle mae'r iaith yn cael ei siarad.

Meddwl mynd i brifysgol neu goleg?

Na

Ydw

Gwnewch eich ymchwil!

1. Pa yrfa?

- Siaradwch â'ch gwasanaeth gyrfaoedd lleol
- Ceisiwch gael ychydig o brofiad gwath yn y proffesiwn

2. Pa bwnc?

- Siaradwch â'ch ysgol, teulu ayb
- Ewch i www.ucas.com a defnyddio ein teclyn chwilio sydd â dolenni i wewfannau prifysgolion
- Ewch i lyfrgell eich ysgol neu i'ch llyfrgell lleol
- Ewch ar gwrs blasu neu i ysgol haf

3. Pa gwrs?

- Pa brifysgol neu goleg? (edrychwch ar eu gwefannau a'u prospectysau)
- Edrychwch a yw'r brifysgol yn gosod prawf mynediad neu'n debyg o alw am gyfweliad neu glyweliad (gweler www.ucas.com/admissions-tests)
- Holwch beth yw'r dulliau o addysgu ac asesu
- Ewch i ddyddiau agored i gael golwg ac i gyfarfod â myfyrwyr sydd yno eisoes www.ucas.com/open-days

Dewisiadau Eraill:

- Gweithio
- Prentisiaeth
- Cwrs rhan amser
- Blwyddyn i ffwrdd
- Ail-eistedd

Gwahanol fathau o astudio

Pan fydd pobl yn meddwl am addysg uwch, mae nhw'n dueddol o feddwl am gyrsiau gradd yn unig, ond mae yna nifer o wahanol gymwysterau y gallwch chi eu hennill. I gael rhagor o wybodaeth ar gyrsiau, ewch i www.ucas.com/study-types.

Canfod cyrsiau a'u gofynion mynediad

Mae'r teclyn chwilio ar lein ar search.ucas.com yn rhestru'r prifysgolion a'r colegau, yn ogystal â'u cyrsiau, gofynion mynediad a map yn dangos lle maen nhw.

Bydd y gofynion mynediad yn rhoi syniad i chi pa raddau sydd eu hangen o ran cymwysterau penodol, megis lefel A, Cymhwyster Uwch yr Alban neu'r Fagloliaeth Ryngwladol. Bydd hefyd yn rhoi gwybod i chi os na fydd rhai pynciau yn cyfrif, neu a oes gofynion eraill megis prawf mynediad.



Mae mynchyu dyddiau agored yn hynod, hynod bwysig. Roedden nhw'n rhoi syniad hynod o dda ac yn help mawr i mi benderfynu ar fy newisiadau."

Dyddiau agored

Un o'r ffyrdd gorau i chi gael barn annibynol yw mynd i weld drosoch eich hun - anogwch eich mab neu'ch merch i fynd i ddyddiau agored yn y sefydliadau ble maen nhw'n ystyried ymgeisio. Yna bydd cyfle iddyn nhw weld beth sydd ar gael ac a fyddan nhw'n fodlon treulio tair neu bedair blynedd yno. Efallai y byddai'n well ganddyn nhw fynd eu hunain; os felly tra fodwch gyda nhw pa wybodaeth i chwilio amdani a pha gwestiynau i'w gofyn. Os byddan nhw'n anghofio gofyn cwestiwn, mae croeso bob amser iddyn nhw ffonio wedyn gydag ymholaiddau bellach. I weld ein rhestr o ddyddiau agored ewch i www.ucas.com/open-days.

Cynadledau UCAS

Ewch i www.ucas.com/conventions i chwilio am gynadledau ac arddangosiadau a gynhelir gan UCAS. Mae'r rhain yn ddigwyddiadau rhad ac am ddim lle gall eich mab neu'ch merch siarad gyda phrifysgolion unigol ynghylch eu gofynion a'r hyn sydd ar gael. . Bydd yna seminarau rhad ac am ddim ar amrywiaeth eang o bynciau megis myfyrwyr â'u harian, ymgeisio i brifysgolion yn yr Alban ac ysgrifennu datganiad personol a fydd yn ennill.

I helpu eich mab neu'ch merch i gael y gorau o'r confensiwn, ewch i www.ucas.com/prep. Mae'n llawn o bethau i'ch helpu, gan gynnwys fideo ynghylch ymweld â digwyddiad, y cwestiynau i'w gofyn a chanllawiau i'w llawrlwytho.

Gwneud y dewis iawn

Mae'n rhaid i'ch mab neu'ch merch gael syniad realistic am y graddau y gallan nhw eu disgwyl. Dylai'r rhain arwain eu dewisiadau ynghylch ble i ymgeisio. Efallai y byddan nhw eisiau gwneud cais i nifer o wahanol brifysgolion, felly os bydd eu graddau'n well neu'n is na'r disgwyl, fe fyddan nhw'n dal â siawns o gael lle.

Mae pethau eraill i'w hystyried gan gynnwys:

- sefydliad mawr neu fach
- pellter o adref
- cludiant
- cyfleusterau chwaraeon
- lleoliad yn y ddinas neu'r wlad
- cyfleusterau'r cwrs (labordai, llyfrgelloedd, mynediad at diwtoriaid)
- bywyd nos a bywyd cymdeithasol
- y llety sydd ar gael
- gweithgareddau, clybiau a chymdeithasau.



Ond efallai mai nid y cwrs yn unig fydd yn eu helpu i gael profiad arbennig."

Myfyrwyr ag anableddau

Os oes gan eich mab neu ferch anabledd mae'n syniad da cysylltu â phrifysgolion a cholegau i drafod unrhyw gefnogaeth y gallen nhw fod ei angen cyn anfon eu cais atom. Mae gan y rhan fwyaf o brifysgolion a cholegau gydlynwyr a chynghorwyr anabledd a fydd yn barod i helpu. Mae'r rhan fwyaf hefyd yn cyhoeddi manylion eu darpariaeth ar gyfer myfyrwyr anabl ar eu gwefan.

Mae mwy o gyngor ar ein gwefan ar www.ucas.com/individual-needs gan gynnwys canllawiau ar fideo ar gyfer myfyrwyr ag anableddau (a fersiwn Iaith Arwyddo Prydain) yn ogystal â fideo gyda chynghorion gan swyddogion anableddau mewn prifysgolion.

Ffioedd dysgu

Erbyn hyn, gall prifysgolion godi hyd at £9,000 y flwyddyn o ffioedd dysgu am eu cyrsiau. Gall prifysgolion sy'n cael eu rhedeg yn breifat godi mwy gan nad yw terfyn ffioedd dysgu'r Llywodraeth yn berthnasol iddyn nhw. Ond gallai myfyrwyr yn y sefydliadau preifat fod yn gymwys am fenthyciad ffioedd dysgu o hyd at £6,000. Gellir codi mwy ar fyfyrwyr rhwngwladol.

Dylai ymgeiswyr gael syniad clir o sut y byddan nhw'n talu'r ffioedd hyn. I gael gwybodaeth gyfredol, ewch i www.ucas.com/how-it-all-works/student-finance mae gwybodaeth ynghylch cyllid i fyfyrwyr ar dudalennau 24 a 26.

Adnoddau defnyddiol

UCAS

- www.ucas.com
- www.cukas.ac.uk

Cyllid

- www.moneysavingexpert.com/students
- www.nasma.org.uk

Myfyrwyr rhwngwladol

- www.ukba.homeoffice.gov.uk/visas-mewn-fudo/ / astudio
- www.ukcisa.org.uk

Ffordd o fyw a llety

- www.telegraph.co.uk/education/university-education/student-life
- www.thesac.org.uk
- www.nationalcode.org
- www.brightknowledge.org
- www.studential.com

Blwyddyn i ffwrdd

- www.gapyear.com
- www.carolinesrainbowfoundation.org
- www.projecttrust.org.uk



Astudiaeth achos

Y teulu Harvey

2012–2013

Erbyn hyn mae fy ngefeiliaid yn wedi setlo mewn prifysgolion lle maen nhw'n teimlo'n gartrefol ac yn astudio cyrsiau y maen nhw'n gwirioni arnyn nhw. Mae mor anodd credu mai dim ond blwyddyn sydd ers pan oedd pob penderfyniad yngylch cyrsiau a champysau i'w gweld mor ofnadwy o anodd. Er hynny, rwy'n eithaf sicr y gallan nhw fod yr un mor hapus yn astudio pynciau ychydig yn wahanol mewn sefydliadau ychydig yn wahanol – oherwydd y peth pwysicaf yw nid yn unig canfod y cwrs a'r brifysgol sydd orau i chi ond hefyd beth allwch chi ei gyfrannu pan fyddwch chi yno.

Rwy'n dal i gofio cael fy hebrwng o amgylch un brifysgol gan fyfyrwr byrlymus, hyderus a oedd yn amlwg iawn yn ei hundeb myfyrwyr. Roedd hi'n wirioneddol wrth ei bodd yn y brifysgol honno. Ond ar ddiwedd ein taith, dyma hi'n dweud nad dyma oedd ei dewis cyntaf – doedd hi ddim wedi cael ei derbyn gan y lle yr oedd wedi rhoi ei bryd ar fynd yno.


Ar ôl dweud hynny, mae eich mab neu'ch merch angen y cyfle gorau i wireddu eu dyheadau ac o gael yr yrfa y maen nhw'n breuddwydio amdan, felly fe ddechreun ni drafod gyrfaoedd a phynciau'n gynnar iawn. Gall profiad gwaith, hyd yn oed am gyfnod byr, wneud pethau'n gliriach. Gynted yn y byd y maen nhw'n penderfynu ar bwnc, yr hawsaf

yw hi i ddechrau chwilio am brifysgol neu goleg sy'n cynnig yr hyn y maen nhw ei eisiau. Mae gwefan UCAS yn hynod ddefnyddiol ar gyfer hyn gyda thablau o ddyddiau agored a'i theclyn chwilio. Yna gallwch ddefnyddio gwefannau'r prifysgolion eu hunan i ganfod pa fodiwlau a phynciau penodol sy'n cael eu cynnig ym mhob un. Er enghraffft, mae nifer o wahanol brifysgolion yn cynnig hanes ond nid pob un oedd yn cynnwys y cyfnodau oedd yn ffefry gan fy merch.

“

Taflwch eich hunan i mewn iddo, manteisiwch i'r eithaf ar bopeth sy'n cael ei gynnig, cewch fod i fyw a hefyd ddyfodol gwych yn y fargen.”

Awgrymiadau gorau i rieni: mae gwahaniaeth aruthrol rhwng trefi prifysgol mewn costau llety, a faint o lety sydd ar gael, a chostau byw yn gyffredinol. Cofiwch am hyn wrth baratoi cyllideb.



Chwalwyr chwedlau

Ambell beth arall i'w ystyried:

Nid dim ond pobl sy'n dda ar gyrsiau academiaidd sy'n mynd i'r brifysgol

– mae yna filoedd o gyrsiau ymarferol, corfforol neu greadigol sy'n datblygu sgiliau ymarferol a phrofiad gwaith. Mae yna strwythur a chyrsiau sy'n addas i bawb.

Does dim angen ychwanegu pum dewis

– mae yna le ar gyfer pump dewis, ond mae'n bosibl gwneud cais am ddim ond un. Neu dda, dri neu bedwar. Cyn belled nad ydyn nhw wedi derbyn neu wrthod unrhyw gynigion, fe allan nhw ychwanegu cyrsiau eraill yn nes ymlaen.

Does dim rhaid iddyn nhw gael dewis yswiriant – gall fod yn ddewis wrth gefn.

Ond, mae'n bwysig mai dim ond un y maen nhw yn ei ddewis os ydyn nhw'n fodlon mynd i'r brifysgol honno – ac nad oes angen dewis yswiriant.

Ewch i www.ucas.com/apply/undergraduate

Ar ôl iddyn nhw gofrestru,
mewgofnodwch i lenwi
pob adran o Apply

Cliciwch ar Apply ar gyfer cyrsiau 20105,
yna ar Register a llenwi'r manylion angenr-
heidiol Bydd angen eu henw defnyddiwr a'r
cyfrinair i orffen eu cais

Erbyn pa bryd y bydd yn rhaid iddyn nhw ymgeisio?

Dyddiadau cau

15 Hydref – Meddygaeth, deintyddiaeth, milfeddygaeth,
meddygaeth filfeddygol a phob cais i brifysgolion
Rhydychen a Chaergrawnt

15 Ionawr – pob cwrs arall heblaw rhai cyrsiau celf a dylunio sydd â
dyddiad cau o 24 Mawrth

24 Mawrth – Rhai cyrsiau celf a dylunio (manylion ar declyn chwilio UCAS)

Ar ôl **30 Mehefin** bydd ceisiadau'n mynd ar eu hunion i Clirio.

Beth sy'n digwydd nesaf?

- Byddwn ni'n prosesu'r cais
- Byddwn yn anfon e-bost Croeso sy'n rhestru'r dewisiadau
- Byddwn yn anfon y cais i'w ystyried gan y prifysgolion a'r colegau sydd wedi'u dewis
- Bydd y prifysgolion a'r colegau yn anfon eu penderfyniadau atom ni
- Byddwn ni'n diweddu Trac

Ymgeisio

Bydd eich mab neu'ch merch
yn gwneud cais ar-lein trwy
wasanaeth ceisiadau UCAS Apply,
ar www.ucas.com/apply. Bydd
hwn ar gael yn yr ysgol os nad
yw'n bosibl cael mynediad at
y rhyngrwyd o'r cartref.

Bydd eich mab neu'ch merch yn cwblhau'r
cais ar-lein, sydd ag wyt hran iddo:

- Manylion personol
- Gwybodaeth ychwanegol
(ymgeiswyr o'r DU yn unig)
- Cyllid myfyrwyr
- Dewis o gyrsiau
- Addysg
- Cyflogaeth
- Datganiad personol
- Manylion canolwyr (ymgeiswyr mewn
ysgol neu goleg heb gofrestru gydag
UCAS)

Cwrs dewisiadau

Mae hyd at bump dewis ar gael. Os ydyn
nhw'n yn gwneud cais i lai na phump o lefydd,
efallai y bydd modd ychwanegu rhai eraill
yn hwyrach cyn belled â'u bod heb dderbyn
cynnig gan rywle arall. Os na fyddan nhw
wedi cael cynnig o gwbl, efallai y bydd modd
ychwanegu dewisiadau trwy Extra (gweler
tudalen 30).

Dyddiadau cau

Os yw eich mab neu'ch merch wedi methu
dyddiad cau, mae'n dal yn bosibl iddyn
nhw gyflwyno cais tan 30 Mehefin. Gall
prifysgolion a cholegau'n ystyried y ceisiadau
hyn os bydd yna le'n dal ar gael.

Geirda

Y peth diwethaf i'w ychwanegu ar y cais
yw'r geirda, sy'n cael ei baratoi gan yr ysgol
fel arfer. Os yw'ch mab neu'ch merch wedi
gadael yr ysgol, efallai y bydd yn bosibl cael
un gan ganolwr annibynnol.



Dim ond am leoedd lle
mae maen nhw'n gallu
gweld eu hunain yno y
dylai myfyrwyr ymgeisio"

Datganiad personol

Anogwch eich mab neu'ch merch i ganfod am beth yn union y mae'r prifysgolion a cholegau yn chwilio gan ddefnyddio ein teclyn chwilio UCAS ar search.ucas.com a gwfannau'r prifysgolion. I'w helpu i baratoi ar gyfer ysgrifennu eu datganiadau personol, gallen nhw restru pwyntiau allweddol, cryfderau a thystiolaeth i gyflawnhau pam eu bod wedi dewis y cwers. Ymhell cyn y dyddiad cau, fe ddylan nhw ysgrifennu'r drafft cyntaf a'i ddangos i'w hathro ac i ffrindiau ac i chi

Dyma restr o beth y gallai ei gynnwys.

- **Beth sy'n annog eu diddordeb yn y pwnc?** I ddangos eu bod yn deall beth sy'n ofynnol i astudio'r cwers
- **Pam eu bod yn addas** i ddilyn y cwers? – rhestru eu sgiliau a'u profiadau a dangos pam mai prifysgol neu goleg yw'r cam rhesymegol nesaf
- Os ydun nhw'n ymgeisio i ddilyn nifer o wahanol gyrsiau, efallai y bydd yn anodd paratoi datganiad personol a fydd yn berthnasol i bob un. Gallen nhw chwilio am **themâu cyffredin** ac ysgrifennu am y rhain.
- **Arddangos aeddfedrwydd** a chynnwys unrhyw swyddi cyfrifol a chyflawniadau (tystysgrifau nofio, arholiadau cerddoriaeth, gweithgaredd gwirfoddol, dramâu ysgol neu gerddorfa)
- Dylid cynnwys **hobïau, diddordebau a gweithgareddau cymdeithasol** os yw'r rhain yn helpu i ddangos eu haddasrwydd ar gyfer y cwers.

- **Profiad gwaith**, gan gynnwys gwaith gwirfoddol, os yw'n cyd-fynd â gofynion mynediad y cwers.
- **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol** gan gynnwys beth hoffen nhw ei wneud ar ôl y brifysgol.

“

Roedd ei dorri'n adrannau wedi rhoi gwell syniad i mi o sut i ffurio'r datganiad personol. Roeddwn i'n defnyddio categoriâu fel profiad gwaith, sgiliau a phrofiadau personol i roi syniad i mi fy hunan o beth ddylwn i ei drafod”

Mae yna lawer o adnoddau ar www.ucas.com/personalstatement i helpu ysgrifennu datganiadau personol. Mae'r rhain yn cynnwys llinnell amser, gweithlen, map meddwl a fideo.

Rhaid i'r datganiad personol fod yn wreiddiol ac ni ddylai gynnwys deunydd wedi ei gopio o ffynhonnell arall. Rydyn ni'n gallu canfod os yw deunydd wedi'i gopio a byddwn yn rhoi gwybod bob amser i brifysgolion a cholegau am bob achos o'r fath.



Cyllid
myfyrwyr

Cyngor cadarn gan Cyllid Myfyrwyr Cymru

Ydych chi'n meddwl sut y bydd eich plentyn yn talu am ei le mewn prifysgol neu goleg? Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yma i helpu.

Pa help sydd ar gael?

Ni fydd rhaid i'r rhan fwyaf o fyfyrwyr dalu eu ffioedd dysgu ymlaen llaw. Gall myfyrwyr o Gymru sy'n astudio yn y DU ymgeisio am Grant Ffioedd Dysgu gan Cyllid Myfyrwyr Cymru i'w helpu i dalu am eu cwrs. Does dim rhaid talu hwn yn ôl. Mae benthyciadau a grantiau eraill ar gael hefyd i'w helpu i dalu eu ffioedd dysgu a chostau byw fel llety a bwyd. Does dim rhaid talu benthyciadau'n ôl nes bod y myfyrwr wedi gadael y brifysgol neu'r coleg ac yn ennill incwm o dros £21,000. Does dim rhaid talu grantiau'n ôl o gwbl.

Mae yna hefyd ragor o help ar gael i fyfyrwyr sydd â phlant, ag oedolion sy'n dibynnu arnynt nhw neu sydd ag anableddau, cyflwr iechyd meddwl, cyflwr iechyd hir dymor neu

anabledd dysgu penodol fel dyslecsia neu ddyspracsia.

Mae yna lawer iawn o wybodaeth ac adnoddau defnyddiol yngylch y mathau o gyllid myfyrwyr sydd ar gael ar ein gwefan. Gallwch ganfod hefyd beth ddylech chi a'ch plentyn ei wneud i ymgeisio, a sut y bydd yn ad-dalu ar ddiwedd y cwrs, ar www.studentfinancewales.co.uk. Cofwch ddweud eich bod yn ein hoffi ar Gweplyfr a dilynwr ni ar Trydar. Byddwch yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yngylch pryd y bydd yn adeg helpu'ch plentyn i baratoi i fynd i brifysgol neu goleg.



facebook.com/SFWales



twitter.com/SF_Wales

Gwasanaeth yw Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cael ei ddraparu gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Rydyn ni'n darparu cefnogaeth ariannol ar ran Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr o Gymru sy'n dilyn addysg uwch yn y DU.



8 Cam syml i ymgeisio'n llwyddiannus am gyllid myfyrwyr

Torrwch y dudalen hon a'i chadw i'w defnyddio'n ddiweddarach.


- 1 Dylai eich plentyn ymgeisio gynted â bo modd. Does dim rhaid disgwyl nes bod lle wedi'i dderbyn mewn prifysgol neu goleg. Mae'n bwysig ymgeisio'n gynnar a chyn y dyddiad cau – os na wneir hynny does yna ddim sicrwydd y bydd yr arian ar gael erbyn pan fydd y cwrs yn cychwyn!
- 2 Y ffordd gyflymaf a hawsaf o ymgeisio yw ar lein ar www.studentfinancewales.co.uk. Mae yna gyngor i gael ar ein gwefan, Gweplyfr, Trydar yngylch pa bryd y gallwch ymgeisio ar lein.
- 3 Os mai dim ond am gyllid myfyrwyr nad yw'n dibynnu ar incwm y cartref y mae eich plentyn yn ymgeisio, megis Benthyciad Ffioedd Dysgu, Grant Ffioedd a'r Benthyciad Cynnal sylfaenol, gall y plentyn lenwi'r cais a does dim rhaid i chi wneud urhyw beth.
- 4 Os yw eich plentyn yn ymgeisio am gyllid myfyrwyr sy'n dibynnu ar incwm eich cartref, megis Grant Dysgu a Benthyciad Cynnal Llywodraeth Cymru, bydd yn rhaid i chi gofrestru cyfrif ar lein hefyd. Byddwn yn gofyn am eich rhif Yswiriant Cenedlaethol a manylion eich incwm. Os ydych yn byw gyda gŵr, gwraig, partner sifil neu bartner, byddwn yn gofyn am eu manylion nhw hefyd.
- 5 Byddwn yn cadarnhau manylion eich incwm gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi drwy eich rhif Yswiriant Cenedlaethol. Mae hyn yn golygu na fydd yn rhaid i'r rhan fwyaf o rieni anfon unrhyw dystiolaeth, ond weithiau byddwn yn gofyn i chi am dystiolaeth neu am ragor o wybodaeth i gefnogi'r hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym ni. Peidiwch â phoeni os bydd hyn yn digwydd i chi.
- 6 Unwaith y byddwn wedi cael yr holl wybodaeth y byddwn ei angen, bydd eich plentyn yn derbyn llythyr Hawl i Gyllid Myfyrwyr yn dangos faint o arian fydd yn ei gael.
- 7 Byddwn yn talu'r Benthyciad Cynnal a / neu Grant Dysgu Llywodraeth Cymru cyntaf i gyfrif banc eich plentyn a'r Benthyciad Ffioedd Dysgu a'r Grant Ffioedd yn uniongyrchol i'r brifysgol neu'r coleg. Bydd eich plentyn yn derbyn y cyllid myfyrwyr bob tymor.
- 8 Bydd yn rhaid i'ch plentyn ymgeisio am gyllid myfyrwyr bob blwyddyn o'r cwrs ond ni fydd yn rhaid dechrau ad-dalu nes gadael y cwrs a bod ag incwm o fwy na £21,000.



student finance wales
cyllid myfyrwyr cymru



A ydych yn ystyried sut y bydd eich plentyn yn talu am ei gyfnod yn y brifysgol? Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yma i helpu.



I gael cyngor doeth am gyllid i fyfyrwyr, trowch at ein gwefan, hoffwch ni ar Facebook neu dilynwch ni ar Twitter.

www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk [f facebook/sfwales](#) [t twitter/SF_Wales](#)

cyngor doeth am

GYLLID I FYFYRWYR



Beth sy'n digwydd unwaith y bydd cais wedi'i wneud?

Beth sy'n digwydd unwaith y bydd cais wedi'i wneud?

Beth ydyn ni'n ei wneud gyda'r ceisiadau

Rydyn ni'n gwneud yn siwr bod pob cais yn gyflawn ac yna'n ei anfon i'r prifysgolion. Yna bydd y prifysgolion yn dechrau penderfynu cynig lle i'r ymgeisydd neu beidio.

Bydd y brifysgol yn asesu a fyddai ymgeisyd yn gallu cwblhau'r cwrs ac yn elwa o'r astudio. Maen nhw'n seilio eu penderfyniadau ar y graddau y gellir eu disgwyl yn eu harholiadau, ar eu datganiad personal a geirda'r ysgol, ac weithiau ar gyfweliad neu bortffolio. Bydd rhai yn cynig lle o fewn wythnos neu ddwy a bydd rhai eraill yn cymryd llawer mwyo o amser.

Track

System ar-lein yw Track y gall ymgeiswyr ei defnyddio i ddilyn cynnydd eu cais ac i ymateb i gynigion. Bydd manylion llawn yn cael eu cynwys gyda'r llythyr Croeso y byddwn ni'n ei anfon i'ch mab neu'ch merch ar ôl derbyn eu cais.

Cyfweliadau, clyweliadau a phortfffolios

Bydd rhai prifysgolion yn gwahodd ymgeiswyr i gyfweliad, clyweliad neu i gyflwyno darn o waith. Os byddan nhw'n gwneud hynny, bydd y gwahoddiad ar lein fel arfer ac felly i'w weld yn Track, ond efallai y bydd y gwahoddiad yn cael ei anfon yn uniongyrchol. Os bydd y gwahoddiad yn Track, mae'n bwysig ateb mor fuan â phosibl, gellir derbyn, gwrthod neu ofyn am ddyddiad arall.

Cynigion

Pan fydd y prifysgolion a'r colegau wedi ystyried y cais, bydd eich mab neu'ch merch yn derbyn hysbysiad i edrych ar Track. Gallai'r cynig fod yn ddiamond, neu'n amodol (sy'n dibynnu ar ganlyniadau eu harholiadau neu ryw ddigwyddiad neu amgylchiad arall), neu'n afluwyddiannus sy'n golygu nad yw'ch mab neu'ch merch yn cael cynig lle.



Byddwch yn amyneddgar! Efallai y bydd rhai prifysgolion yn ateb yn gymharol gyflym ond bydd llawer yn cymryd misoedd. Daeth fy nghynig cyntaf union bythefnos ar ôl ymgeisio ond roedd yn rhaid disgwyl bron i bedwar mis am yr un olaf!"

Penderfyniadau

Pan fydd eich mab neu'ch merch wedi clywed gan bob un o'u dewisiadau, bydd yn rhaid dod i benderfyniad ynglŷn â'r cynigion sydd ar gael. Gallan nhw ddewis yr un y maen nhw'n hoffi orau a rhoi ymateb 'cadarn'. Os yw'r cynig yn un amodol, gallan nhw gael dewis yswiriant wrth gefn. Os ydyn nhw'n bendant mai dim ond mewn un cynig y mae eu diddordeb, does dim rhaid cael dewis yswiriant. Does dim modd cyfnewid rhwng dewis cadarn a dewis yswiriant. Os ydyn nhw'n bodlonni amodau eu dewis cadarn, bydd eu dewis yswiriant yn 'diflannu'. Does dim rhaid ymateb i'r cynigion nes eu bod wedi derbyn pob un sydd ar eu cais.

I ganfod rhagor o fanylion yngylch y mathau o gynigion, ewch i www.ucas.com/offers. I gael cyngor yngylch ymateb i gynigion, ewch i www.ucas.com/replies.

Ychwanegol

Os na fydd eich mab neu’ch merch yn derbyn unrhyw gynnig, neu’n penderfynu nad ydyn nhw eisiau derbyn y cynigion, mae yna’n dal ddewisiadau eraill iddyn nhw.

Extra

Drwy Extra, bydd myfyrwyr yn gallu ymgeisio am gyrsiau gyda lleoedd gwag rhwng 25 Chwefror a dechrau Mehefin 2015. Mae’n gyfle gwerthfawr i ychwanegu dewis o gwrs arall cyn diwrnod y canlyniadau. Efallai y bydd eich plentyn yn gallu ymgeisio am ddewis arall os yw wedi:

- defnyddio’r cyfan o’r pum dewis
- derbyn penderfyniadau pob un o’r prifysgolion a’r colegau
- heb gael unrhyw gynnig, neu wedi gwrthod y cynigion y mae wedi’u cael

Os bydd Extra ar gael, bydd yn cael ei ddangos fel botwm yn Track. Does yna ddim ff ymgeisio ychwanegol.

- Bydd ymgeisiwyr yn chwilio am gyrsiau gyda lleoedd gwag Extra ar declyn chwilio UCAS.
- Fe ddylen nhw gadarnau a fydd y brifysgol neu’r coleg yn fodlon eu hystyried.
- Yna, fe fyddan nhw’n gallu ychwanegu’r brifysgol a manylion y cws yn Track.

Dim ond am un cws y gellir ymgeisio ar y tro, felly fydd yna ddim dewis yswiriant ar gael.

Beth sy’n digwydd nesaf?

- Os byddan nhw’n cael cynnig am y cws sydd wedi’i ddewis, does ond rhaid ei dderbyn yn Track erbyn y dyddiad a nodir. Mae hyn yn eu hymrwymo i’r cws, fydd yna ddim dewis arall ar gael yn Extra na Chlirio (gweler tudalen 32).
- Os yw eich mab neu’ch merch yn afluwyddianus, yn gwrthod cynnig neu heb dderbyn cynnig o fewn 21 diwrnod, bydd yn bosibl rhoi dewis arall yn ei le.

Os bydd eich mab neu’ch merch yn penderfynu peidio â defnyddio Extra, neu’n methu â chanfod lle drwy Extra, fe fydd modd disgwyl nes daw canlyniadau’r arholiad ac yna ymgeisio drwy Clearing (gweler tudalen 32).

Gallwch ganfod rhagor ar www.ucas.com/extra.

Canlyniadau arholiadau

Os bydd cynigion eich mab neu’ch merch yn amodol ar ganlyniadau’r haf y rhan fwyafrif o arholiadau gwledydd Prydain, bydd yn rhaid gwneud yn siwr eu bod yn barod am y ‘diwrnod canlyniadau’. Bydd yn rhaid iddyn nhw:

- gadw’r manylion cyswllt yn gywir yn Track. os byddwch chi’n cael enwebiad mynediad, byddwch chi’n gallu mynd at eu cais
- cofiwch gael eu manylion mewngofnodi Track wrth law
- cofiwch eu cadw wrth law ar ddiwrnod y canlyniadau
- gallwch weld sut y mae canlyniadau eu haroliadau yn cael eu hanfon at y prifysgolion drwy ymweld â: www.ucas.com/send-exam-results

Beth sy’n digwydd?

- Gobeithio y bydd eich mab neu’ch merch yn cael y canlyniadau arholiad y byddan nhw eu hangen, ac y bydd eu lleoedd cael eu cadarnhau. Os byddan nhw’n methu o drwch blewyn, efallai y bydd y brifysgol yn eu derbyn beth bynnag.
- Efallai y byddan nhw’n cael lle ar y dewis cadarn neu’r dewis yswiriant, yn dibynnu ar y canlyniadau.
- Efallai y byddan nhw’n cael cynnig lle ar gwrs arall gan y brifysgol (gellan nhw ei dderbyn neu ei wrthod).
- Os byddan nhw’n cael lle, byddwn ni’n anfon llythyr i gadarnhau a bydd y llythyr yn dweud os y dylen nhw wneud unrhyw beth arall.

Dewisiadau eraill

- Os byddan nhw’n gwneud yn well na’r disgwyl – efallai y bydd yn bosibl defnyddio Adjustment i chwilio am gwrs arall (gweler tudalen 32).
- Os na fydd pethau wedi mynd yn ôl y bwriad, mae’n bosibl ddefnyddio Clearing i geisio canfod lle arall (gweler tudalen 32).
- Efallai y gallen nhw hefyd yn ystyried rhywbeth arall heblaw addysg uwch, megis blwyddyn allan, cael gwaith, astudio mewn ffordd arall neu mewn gwlad arall. Ewch i www.ucas.com/planning-your-future i gael rhagor o gyngor.



Clearing ac Adjustment

Clearing

Drwy Clearing y bydd prifysgolion a cholegau'n llenwi lleoedd sy'n dal yn wag ar gyrsiau. Mae ar gael o fis Gorffennaf tan fis Medi. Bydd eich mab neu'ch merch yn gallu ddefnyddio Clearing unwaith y bydd y cyfan o'u canlyniadau wedi'u derbyn os::

- nad ydyn nhw wedi derbyn unrhyw gynnig (neu ddim un fydden nhw eisiau ei dderbyn)
- nad oedd eu canlyniadau arholiad yn ôl y disgwyl neu os nad ydyn nhw wedi cyfarfod ag amodau'r cynnigion am le
- ydyn nhw wedi ymgeisio ar ôl 30 Mehefin

Bydd eich mab neu'ch merch yn gwybod eu bod yn Clearing os yw eu statws Track yn dweud 'Rydych chi yn Clearing'. Yn ystod Clearing, bydd ymgeiswyr yn chwilio am leoedd gwag drwy ddefnyddio teclyn chwilio UCAS ac yn ffonio prifysgolion yngylch unrhyw gyrsiau y maen nhw â diddordeb ynddynt nhw. Os ydyn nhw'n cael cynnigion anffurfiol oddi wrth nifer o brifysgolion bydd yn rhaid penderfynu pa rai i'w dderbyn ac ychwanegu'r dewis Clearing yn Track. Yna bydd y brifysgol yn ymateb – os na fydd y lle'n cael ei gadarnhau gall eich plentyn ychwanegu dewis arall.

I fod yn gymwys i ddefnyddio Clearing, bydd yn rhaid i'ch mab neu'ch merch fod wedi cyflwyno cais i UCAS.

Ewch i www.ucas.com/clearing i gael rhagor o wybodaeth

Adjustment

Mae Adjustment yn gyfle i'ch mab neu'ch merch ystyried ble a beth i'w astudio, ond dim ond o dan rai amodau penodol y mae ar gael.

- Os bydd eich mab neu'ch merch wedi gwneud yn well na'r disgwyl ac wedi cyfarfod a mynd y tu hwnt i amodau cynnig cadarn, efallai y bydd cyfle i ddefnyddio Adjustment i ymgeisio am gwrs arall.
- Os bydd cynnig cadarn amodol yn cael ei dderbyn - ac felly wedi'i wneud yn ddewis cadarn diamod - efallai y bydd yn bosibl newid y lle hwnnw am le ar gwrs arall, gwell.
- Mae Adjustment ar gael am gyfnod byr ac mae'r dewis i gofrestru ar gael yn Track.
- Bydd eu lle cadarn gwreiddiol yn ddiogel wrth chwilio am le arall.
- Mae Adjustment yn hollol ddewisol. Bydd llawer o gyrsiau cystadleuol yn llawn ond gallai ymgeiswyr eraill fod wedi methu â chyrraedd eu hamodau neu wedi newid cwrs, felly gallai fod yn werth cael golwg beth sydd ar gael.

Ewch i www.ucas.com/adjustment i gael rhagor o gyngor



**Stylish
new homes
in the perfect
location!**

**Highbrook Park is a new collection
of 3, 4 and 5 bedroom homes ideally
located in Stoke Gifford.**

Enjoy spacious and sophisticated interiors, finished to Crest Nicholson's usual high standards and a fantastic location in north Bristol. Close to Bristol Parkway Station, Sainsburys, Abbey Meads retail park and within walking distance of the UWE campus.

Call **0845 894 3215** today to find out more!

Prices from £236,995

HP
Highbrook Park

James Counsell Way | off Filton Road | Bristol | BS34 7PY

Sales and Marketing Suite open
Thursday to Monday 10am to 5pm
Selling agent Allen & Harris on 0117 979 8082

www.crestnicholson.com/highbrookpark

0845 894 3215



Dechrau yn y brifysgol



Ble i fyw – Mae yna rai pethau allweddol sy'n rhaid eu trefnu cyn gadael cartref - a'r cyntaf yw ble i fyw! - gellir archebu llety prifysgol ar gyfer myfyrwyr blwyddyn gyntaf ac fel arfer gellir dewis rhwng ystafelloedd sengl neu rai a rennir, ystafelloedd ymolchi yn yr ystafell neu rannu cyfleusterau , pob un am bris gwahanol. Mae tai preifat gan landlordiaid preifat a llety myfyrwyr pwrrpasol gan ddarparwyr preifat ar gael hefyd yn y rhan fwyaf o leoliadau.

Cofiwch edrych yn ofalus iawn beth sy'n cael ei gynnwys yn y pris, er enghraifft a yw prydu a glanhau yn cael eu cynnwys. Yna cymharwch y prisiau.

“

Yn ôl un myfyriwr ‘Un o’r pethau mwyaf defnyddiol i mi ei ddysgu oedd sut i goginio pasta i chwech o bobl am £2.50!’

Rheoli arian

Efallai y bydd eich mab neu’ch merch yn poeni a fydd yn gallu fforddio popeth wrth astudio. Mae yna lawer iawn i’w drin – o ffioedd dysgu a llety i fwyd a deunyddiau’r cwrs, a bywyd cymdeithasol.

Beth bynnag yw eu sefyllfa ariannol, bydd yr arian y byddan nhw'n ei drin yn ystod cyfnod addysg uwch yn gyfle i ddysgu bod yn gyllidebwyr disgrair! Ewch i www.ucas.com/how-it-all-works/starting-your-studies/managing-money i gael gwybodaeth am reoli arian.

Wythnos y glas – sef cyfres o ddigwyddiadau ar gyfer myfyrwyr newydd i'w croesawu i'r brifysgol, sy'n aml yn arwain at gyfeilgarwch oes.

Gwneud ffrindiau - mae yna lawer o glybiau a chymdeithasau sy'n dod â myfyrwyr o'r un anian at ei gilydd ac yn aml bydd grŵp astudio eich mab neu'ch merch yn llawer mwy nag yn yr ysgol. Byddai'n werth iddyn nhw gael golwg ar gyfleusterau undeb y myfyrwyr hefyd.

Mae rhai prifysgolion a cholegau'n rhedeg rhagleni 'bydi'. Bydd myfyrwyr sydd eisoes yn y brifysgol yn gwirfoddoli i gysylltu â myfyrwyr newydd i aetb unrhyw gwestiynau yngylch astudio, y brifysgol neu fywyd myfyrwyr. Mae'n ffodd wych o ganfod rhagor yngylch beth sy'n mynd ymlaen.

Cael cefnogaeth – bydd yn brofiad tra gwahanol i ddysgu yn yr ysgol. Fydd yna neb i ddweud wrthyn nhw beth i'w wneud bob cam o'r ffodd, bydd yn ddysgu mwy hunan gyfeiriol. Ond bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf yn mynd drwy'r un profiad. Mae gan y rhan fwyaf o brifysgolion swyddogion lles, caplaniaid a chwnselwyr myfyrwyr sy'n gyfarwydd â'r problemau o setlo mewn byd academaidd newydd ac sydd wrth law i helpu myfyrwyr newydd.

Mae yna lawer o bethau i'w hystyried na fydd ganddyn nhw lawer o brofiad o'u trefnu, fel trwyddedau teledu, yswiriant a chelfi cegin. Bydd eich arweiniad chi yma yn amhrasiadwy.

Ewch i'n hadran 'Dechrau'ch astudiaethau' www.ucas.com/startingstudies i gael rhagor o gynghorion.



Awgrymiadau a syniadau i'ch mab neu'ch merch

- 1 Llofnodwch am e-gerdyn UCAS i gael cyngor ar y broses ymgeisio www.ucas.com/ucascard
- 2 Ymchwiliwch a thynnwch restr fer o gyrsiau rydych chi â diddordeb ynddyn nhw search.ucas.com
- 3 Ewch i ddyddiau agored prifysgolion a cholegau www.ucas.com/open-days
- 4 Cofiwch y dyddiad cau ar gyfer y cyrsiau y maen nhw'n eu dewis www.ucas.com/whentoapply
- 5 Cofrestrwch ar lein gydag UCAS Apply o fis Gorffennaf 2014 www.ucas.com/apply/undergraduate
- 6 Anfonwch gais at UCAS erbyn y dyddiad cau perthnasol
- 7 Ymgeisiwch am gefnogaeth cyllid myfyrwyr – ddechrau 2015
- 8 Cadwch lygad yn gyson ar eu ebyst am ddiweddarriadau oddi wrth UCAS yngylch eu cais
- 9 Dewch i ddeall amodau'r cynigion y maen nhw'n eu derbyn
- 10 Cofiwch erbyn pryd y mae'n rhaid iddyn nhw ymateb i'w cynigion
- 11 Ddefnyddiwrch Track i ymateb i gynigion cyn y dyddiadau cau www.ucas.com/replies
- 12 Defnyddiwrch Extra os nad oes unrhyw gynnig yn dod - o fis Chwefror 2015 www.ucas.com/extra
- 13 Gwnewch yn siŵr nad ydyn nhw ar wyliau pan fydd eu canlyniadau'n cyrraedd
- 14 Paratowch gynllun ar gyfer Clearing neu Adjustment os nad ydyn nhw'n cael canlyniadau y maen nhw'n eu disgwyl www.ucas.com/examresults

Y dyddiadau allweddol...

2014

Mehefin

Bydd UCAS Apply ar gyfer 2015 ar gael.

Ganol Medi

Gellir cyflwyno ceisiadau i UCAS.

15 Hydref
(18:00 amser y DU)

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i brifygolion Rhydychen a Chaergrawnt a cheisiadau ar gyfer meddygaeth, deintyddiaeth, milfeddygaeth a gwyddor milfeddygaeth.

2015

15 Ionawr
(18:00 amser y DU)

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i bob cwrs heblaw'r rhai sy'n cael eu dangos gyda dyddiad cau 15 Hydref neu 24 Mawrth

25 Chwefror

Extra yn agor.

24 Mawrth
(18:00 amser y DU)

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am gyrisau celf a dylunio heblaw am y rhai â dyddiad cau ar 15 Ionawr.

Bydd ceisiadau a dderbynir wedi'r dyddiadau cau uchod yn cael eu hanfon i'r prifysgolion, cyn belled â bod lleoedd ar gael, ond nid oes rhaid i'r prifysgolion eu hystyried.

30 Mehefin
(18:00 amser y DU)

Dyddiad olaf i dderbyn ceisiadau yn UCAS. Bydd pob cais a dderbynir yn hwyrach yn cael eu rhoi'n awtomatig yn Clearing.

Dechrau Awst

Cyhoeddi canlyniadau'r Awdurdod Cymwysterau'r Alban a'r gwasanaeth gwybodaeth Clearing'r Alban yn dechrau.

13 Awst

Cyhoeddir canlyniadau TGAU lefel A, Diploma Uwch a Pre-U Caergrawnt a'r gwasanaeth gwybodaeth Clearing llawn yn dechrau.

21 Medi
(18:00 amser y DU)

Dyddiad olaf i dderbyn ceisiadau trwy Apply.

Cofiwch siarad ag ysgol neu goleg eich plentyn rhag ofn bod ganddyn nhw eu dyddiadau cau eu hunain a fydd yn aml yn gynharach na'r rhai uchod.

Bydd yna hefyd ddyddiadau cau penodol ar gyfer ymateb i gynigion – mae manylion ar gael ar

www.ucas.com/whentoapply

lenovo FOR
THOSE
WHO DO.

UCAS



YOU MAY ALREADY BE FAMILIAR WITH
OUR THINKPAD RANGE OF NOTEBOOKS;
YOU MAY EVEN USE ONE FOR YOUR WORK.

LENOVO PCS ARE IN THE HANDS OF
MILLIONS OF STUDENTS WORLDWIDE,
FROM PRIMARY SCHOOLS TO UNIVERSITIES.

WE HAVE JUST LAUNCHED OUR STUDENT
DISCOUNT STORE IN THE UK. VISIT US AND
TAKE ADVANTAGE OF THE LATEST OFFERS AT:

WWW.LENOVO.COM/STUDENTS/UK

Ydych chi'n gwybod y gwahaniaeth
rhwng Pwyntiau Tariff a Chodau UCAS?
Beth am UF a CF?


Gall Rhieni'n Rhannu eich helpu.



